ADNODD 3: YNGHYLCH ASESIADAU RISG

Sut gallaf greu fy asesiad risg fy hun?

Gallwch chi ddefnyddio ein templed ni a'n henghraifft a ddarperir i gyfeirio ati. Bydd angen i chi edrych yn ofalus ar eich amgylchedd ysgol, eich sefyllfaoedd a'ch diwylliant er mwyn creu asesiad risg trylwyr. Byddem yn argymell cerdded o gwmpas y safle fel rhan o'r asesiad risg ac ystyried risgiau o safbwynt ci. Bydd angen i chi ystyried pob posibilrwydd, gan gynnwys sut caiff y ci ei reoli mewn argyfyngau.

Pwy ddylai weld yr asesiad risg?

Dylid cyflwyno'r asesiad risg i'r holl staff yn rheolaidd. Mae angen i bawb fod yn ymwybodol o'u rôl wrth liniaru risg, a chael cyfle i dynnu sylw at risgiau neu broblemau ychwanegol nad ydynt wedi cael eu nodi. Bydd angen i chi sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau a chyfleoedd i godi pryderon. Dylai'r asesiad risg fod ar gael yn hawdd i unrhyw un ddod o hyd iddo a chyfeirio ato.

Pa mor aml mae angen adolygu'r asesiad risg?

Dylid adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd, er enghraifft bob tymor ysgol, ac ychwanegu ato neu ei newid yn ôl yr angen. Os oes unrhyw newidiadau, e.e. o ran y ci neu'r sawl sy'n gyfrifol amdano, dylid adolygu ac addasu'r asesiad risg hefyd.

ADNODD 3: YNGHYLCH ASESIADAU RISG

Pwy sy'n cymeradwyo'r asesiad risg?

Gall hyn amrywio, gan ddibynnu ar drefniadaeth eich ysgol; fodd bynnag, byddem ym argymell o leiaf y person a fydd yn rheoli'r ci, yr athro a fydd yn rheoli'r dosbarth neu'r myfyrwyr a fydd yn dod i gysylltiad â'r ci, aelod o'r Uwch-dîm Rheoli a chadeirydd y llywodraethwyr. Mae hyn yn sicrhau y cytunir arno ar bob lefel a'i fod yn cael ei adlewyrchu yn holl bolisïau'r ysgol i sicrhau diogelwch pawb.

Mae'r asesiad risg yn nodi bod angen hyfforddiant ac asesiad ar bob ci a'r person sy'n gyfrifol amdano ar gyfer eu rôl. Pa hyfforddiant sy'n ofynnol?

Y peth cyntaf i'w ystyried yw beth yw disgwyliadau'r ci a'r sawl sy'n gyfrifol amdano a pha fath o sefyllfaoedd, rhyngweithiadau ac amgylcheddau a fydd yn eu hwynebu yn yr ysgol? Bydd hyn yn dylanwadu ar y dewis ci yn y lle cyntaf, er enghraifft maint y ci, math o flew, natur, lefel gweithgarwch.

Dylai rheolwyr cŵn gael eu haddysgu mewn ymddygiad, lles ac iaith corff y ci ynghyd â dulliau hyfforddi. (Sylwer, dim ond ymagweddau hyfforddiant cadarnhaol a ddylai gael eu defnyddio gyda chi mewn ysgol). Hefyd, rhaid i reolwr y ci feddu ar brofiad o drin y ci unigol y bydd yn gweithio gydag ef, gan gymryd amser i feithrin perthynas gref o ymddiriedaeth fel y gall hwyluso rhyngweithiadau'n ddiogel. Dylai rheolwyr cŵn fod yn gyfarwydd â'r ysgol/amgylchedd gwaith a'i pholisïau/bolisïau ac, yn ddelfrydol, dylent dreulio amser yn yr ysgol heb y ci i ddod yn gyfarwydd â'r rhain. Gweler y ddogfen safonau am ragor o fanylion .

Mae angen i gŵn gael eu cymdeithasoli a'u paratoi i fod yn hyderus am fod yn amgylchedd yr ysgol a rhyngweithio'n ddiogel â'r myfyrwyr. Mae angen perthynas gref o ymddiriedaeth rhwng y ci a'i reolwr cyn iddynt fynd i mewn i'r ysgol. Mae angen o leiaf hyfforddiant sylfaenol arnynt, er enghraifft, cerdded ar dennyn, ymddygiad cyfarch, ymateb i enw, dod yn ôl pan gaiff ei alw. Gweler y ddogfen safonau am ragor o fanylion.